


Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

# Y Llanw'n troi? Adroddiad ar yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Awst 2017

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddNHAMG**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

# Y Llanw'n troi? Adroddiad ar yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Awst 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

# Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): newid yn yr hinsawdd, ynni, rheoli cyfoeth naturiol; cynllunio; lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Mike Hedges AC (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Gareth Bennett AC**
UKIP Cymru
Canol De Cymru



**Jayne Bryant AC**
Llafur Cymru
Gorllewin Casnewydd



**Huw Irranca-Davies AC**
Llafur Cymru
Ogwr



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**David Melding AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



**Siân Gwenllian AC**
Plaid Cymru
Arfon



**Simon Thomas AC**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

**Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:**



**Mark Reckless AC (Cadeirydd)**
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru



**Vikki Howells AC**
Llafur Cymru
Cwm Cynon

# Cynnwys


Rhagair y Cadeirydd ..... 5

Argymhellion ..... 6

01. Methodoleg a chylch gorchwyl ..... 8

02. Cyfeiriad strategol ac arweiniad ..... 10

03. Cyflwr Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru ..... 24

04. Goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd ..... 33

Atodiad A - Tystiolaeth ysgrifenedig ..... 38

Atodiad B – Tystiolaeth lafar ac ymweliadau'r Pwyllgor ..... 39

# Rhagair y Cadeirydd

Mae amgylchedd morol Cymru yn cyfrif am dros hanner arwynebedd Cymru ac mae'n gartref i rai o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau mwyaf amrywiol yn fiolegol yn Ewrop. Er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd gwarchod y rhywogaethau hyn, mae dwy ran o dair o ddyfroedd Cymru wedi'u dynodi mewn rhyw ffordd.

Mae angen mynd i'r afael ar frys â chyflwr presennol ein Hardaloedd Morol Gwarchodedig (AMGau). Mae ar Gymru angen gweledigaeth feiddgar ac uchelgeisiol ar gyfer gwarchod ein moroedd i genedlaethau'r dyfodol. Rydym yn wynebu her sylweddol ond mae gan Gymru gyfle i ddangos arweiniad byd-eang yn y maes hwn.

Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn i weld a yw'r warchodaeth honno yn cael ei chyflwyno yn briodol gan ystod o awdurdodau rheoli, gyda Llywodraeth Cymru yn gyfrifol yn y pen draw.

Ein prif argymhelliad yw bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu'r flaenoriaeth wleidyddol, yr arweiniad a'r cyllid angenrheidiol i alluogi gweithredu yn genedlaethol ac yn lleol. Rydym wedi argymell bod Strategaeth Ardaloedd Gwarchodedig Morol yn cael ei llunio i ddangos sut y bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu trin yn genedlaethol ac yn lleol. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau staffio digonol, a hynny ar lawr gwlad ac yn fewnol, i allu symud ymlaen â'r agenda hwn.

Yn y tymor hwy, bydd y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn dod â chyfleoedd a heriau. Mae'n hanfodol ein bod ni yng Nghymru yn gallu cynllunio polisïau sydd wedi'u teilwra i warchod ein moroedd, ond ni ddylid gweld unrhyw leihad neu golled o ran y warchodaeth honno. Yn bwysig, bydd hyn yn gofyn am gyllid ac mae angen i ni wybod y bydd ar gael yn y dyfodol.

Gwyddom fod pobl Cymru yn gosod gwerth ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy ac yn gwerthfawrogi'r cydbwysedd gofalus y mae'n rhaid ei gyflawni rhwng gwarchod ecosystemau bregus a sicrhau y gall Cymru elwa ar y cyfleoedd economaidd a gynigir gan yr amgylchedd morol. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'u cynllunio i ateb yr her hon a dylent fod yn fframwaith ar gyfer sicrhau bod bioamrywiaeth moroedd Cymru yn cael ei gynnal a'i wella i bobl ei fwynhau yn y dyfodol.

Rydym yn diolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn a bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at rai o'r pynciau hyn wrth i ni edrych i mewn i oblygiadau gadael yr UE yn fwy manwl. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn brawf o sut rydym yn gweithredu'r ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n cael ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, felly bydd hefyd yn cael ei asesu fel rhan o'n gwaith craffu ar ôl deddfu parhaus.

## Argymhellion

Argymhelliad 1. Er mwyn i Gymru wireddu manteision ei MPAs, rhaid rheoli'r safleoedd yn effeithiol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnig arweiniad yn hyn o beth drwy ddatblygu, yn ddi-oed, strategaeth MPAs, a sicrhau bod pob awdurdod rheoli, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn ymwneud yn frwd â rheoli MPAs ac yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau. ........................................... Tudalen 22

Argymhelliad 2. Ni ellir rheoli MPAs yn effeithiol heb y lefel briodol o adnoddau, gan gynnwys cyllid a staffio. Rhaid i Lywodraeth Cymru:

- sicrhau bod ganddi ddigon o staff i gyflawni ei chyfrifoldebau ym maes cadwraeth y môr;
- cyflwyno cynigion ar gyfer cyllido dull gweithredu sy'n seiliedig ar ardaloedd, a sicrhau bod gan bob ardal reoli ei swyddog dynodedig ei hun; a
- sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran rheoli MPAs a gwella Rhwydwaith Natura 2000 Cymru. ........................................................................................................ Tudalen 22

Argymhelliad 3. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid a'r cyhoedd a gweithredu mewn ffordd fwy tryloyw ac effeithlon, gan gynnwys cyhoeddi gwybodaeth am weithgareddau'r grwpiau arbenigol y mae'n eu harwain. Dylai rhanddeiliaid gael ymwneud yn llawn â datblygu'r strategaeth MPAs. Rhaid i Lywodraeth Cymru gryfhau ymwybyddiaeth o MPAs ymhlith y cyhoedd. ........................................................................................................ Tudalen 22

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth orfodi sy'n seiliedig ar risgiau ac sy'n mynd i'r afael â'r holl bwysau sydd ar MPAs, gan gynnwys ansawdd dŵr, sbwriel, pwysau yn sgil gweithgareddau hamdden; pysgodfeydd a chasglu adnoddau morol sydd heb eu rheoleiddio; a dylai symud yn gyflym i roi camau rheoli ar waith yn yr MPAs y gwyddys eu bod dan fygythiad. ........................................................................................................ Tudalen 22

Argymhelliad 5. Mae sicrhau bod data, tystiolaeth ac ymchwil ar gael yn elfen ganolog o ddatblygu a rheoli polisi MPAs. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu partneriaeth gwyddor môr yng Nghymru i ddwyn diwydiant, academia a rhanddeiliaid ynghyd. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod ganddi ddata

ac ymchwil effeithiol ar waith i reoli MPAs, gan gynnwys gwaith monitro a gwyliadwriaeth. ........................................................................................ Tudalen 32

Argymhelliad 6. Wrth ddynodi MPAs yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer y gwaith rheoli, monitro, goruchwylio a gorfodi y bydd gofyn ei wneud ar safle(oedd) a sut y darperir adnoddau o'r fath. ........................................................................................................................ Tudalen 32

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ddiffinio'r hyn y mae Rhwydwaith Ecolegol Gydlynol o MPAs yn nyfroedd Cymru yn ei olygu a dylai gydweithio â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â bylchau yn y rhwydwaith. ............................ Tudalen 32

Argymhelliad 8. Un o gonglfeini rheoli MPAs yw sicrhau atebolrwydd a llwybr at gyfiawnder. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau yn y dyfodol yn unol â Chonfensiwn Aarhus ac nad ydynt yn rhy ddrud i ymgeiswyr...... Tudalen 37

Argymhelliad 9. Rhaid i Lywodraeth Cymru asesu effaith debygol gadael yr Undeb Ewropeaidd ar MPAs Cymru, gan gynnwys a oes modd cysoni'r drefn ddynodi a rheoli, gan ymrwymo i sicrhau na chollir dim gwarchodaeth o dan drefniadau'r dyfodol. Rhaid iddi hefyd geisio cytundeb â Llywodraeth y DU ynglŷn â sut y caiff trefniadau i warchod yr amgylchedd morol eu rheoli'n gydlynol mewn ardaloedd morol sy'n croesi ffiniau. .................................. Tudalen 37

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adroddiadau am gyflwr a statws safleoedd MPAs Cymru sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth Ewrop yn cael eu paratoi'n rheolaidd ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, gan gyhoeddi a darparu adroddiadau i awdurdodau rheoli'n brydlon............ Tudalen 37

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau bod adnoddau pysgodfeydd Cymru a buddiannau fflyd Cymru yn cael eu gwarchod yn llawn yn y trafodaethau i adael yr Undeb Ewropeaidd. Dylai trefniadau rheoli pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a strategaeth MPAs Cymru. ....................................... Tudalen 37

Argymhelliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg cyllid a all fod ar gael ar gyfer gwaith MPAs gan fod y cyllid hwnnw ar hyn o bryd yn dod o gronfeydd yr UE, megis Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a LIFE-Nature. ............................................................ Tudalen 37

# 01. Methodoleg a chylch gorchwyl

## Rhagarweiniad

**1.** Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAs) yw'r term a ddefnyddir ar gyfer pob math o safle cadwraeth natur sy'n cael ei warchod yn yr amgylchedd morol a'r arfordir. Mae'r rhain yn cael eu diffinio'n ddaearyddol ac yn cael eu cydnabod yn ffurfiol drwy ddulliau cyfreithiol neu ddulliau effeithiol eraill, megis trefniadau gwirfoddol. MPAs yw'r brif ffordd o warchod bioamrywiaeth gan gydnabod ar yr un pryd natur amlddefnydd yr amgylchedd morol drwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

## Cylch gorchwyl

**2.** Pwrpas yr ymchwiliad oedd:

- asesu dulliau o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAs) Cymru er mwyn gweld cyfleoedd i sicrhau'r manteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gorau a all ddeillio ohonynt; a
- deall sut y bydd y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig a nodi unrhyw faterion y bydd angen mynd i'r afael â hwy yn ystod y broses honno.

## Y dull a ddilynwyd

**3.** Cafodd y Pwyllgor 23 o ymatebion ysgrifenedig a gwahoddwyd tystion i gyfarfodydd i edrych yn fanylach y materion a godwyd yn yr ymatebion hynny. Rhestrir y tystion hyn yn Atodiadau A a B.

**4.** Yn ogystal â hyn, cyflwynwyd 859 o ymatebion i'r arolwg cyhoeddus rhwng 2 Ionawr a 23 Chwefror. Cyhoeddwyd yr arolwg hwn ar wefan y Pwyllgor.

**5.** Ym mis Ionawr 2017, ymwelodd dirprwyaeth ar ran y Pwyllgor â Dulyn i drafod materion sy'n ymwneud â pholisi morol â'r Sefydliad Morol.[1]


**6.** Ym mis Mawrth 2017, ymwelodd y Pwyllgor ag Aberdaugleddau i ddysgu rhagor am gyfrifoldebau a gweithrediadau gorfodi a gwyliadwriaeth Llywodraeth Cymru; i gyfarfod â rhanddeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig ag Ardal Cadwraeth Forol Arbennig Sir Benfro; ac i edrych ar faterion rheoli lleol o fewn y safle.

## Ymatebion i'r arolwg ar reoli moroedd Cymru2

Cynhaliwyd arolwg cyhoeddus i ofyn am farn pobl Cymru am Ardaloedd Morol Gwarchodedig ym moroedd Cymru. Pan ofynnwyd iddynt "Pwy sydd yn y sefyllfa orau i reoli a gwarchod ein moroedd?", dywedodd y rhan fwyaf mai cyrff cyhoeddus a diwydiannau'r môr ddylai arwain. Mae pennod gyntaf ein hadroddiad yn trafod arweiniad.

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 728

[1] https://www.marine.ie
[2] Arolwg Tîm Allgymorth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mehefin 2017


Cyrff statudol, er enghraifft Cyfoeth Naturiol Cymru
189
Diwydiannau morol
174
Sefydliadau preifat
143
Llywodraeth y DU
96
Yr Undeb Ewropeaidd
41
Grwpiau Amgylcheddol
32
Sefydliadau cymunedol
19
Gwyddonwyr
19
Llywodraeth Cymru
13
Awdurdodau Lleol
2
0
20
40
60
80
100
120
140
160
180
200

# 02. Cyfeiriad strategol ac arweiniad

Yn y bennod hon, mae'r Pwyllgor yn ystyried rôl Llywodraeth Cymru o ran cynnig arweiniad a'r camau y dylid eu cymryd i wella rheoli MPAs Cymru yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn dweud sut y gellid gwella'r ymgysylltu ag unigolion a sefydliadau .

## Cyfeiriad strategol

**7.** Esboniodd Llywodraeth Cymru'r strwythur ar gyfer rheoli MPAs yng Nghymru:

> "Mae Gweinidogion Cymru'n ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod ein Hardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu rheoli'n effeithiol. Fodd bynnag, nid dim ond un sefydliad sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros reoli'r ardaloedd hyn. Mae nifer o sefydliadau a elwir yn awdurdodau rheoli'n gyfrifol am eu rheoli, gan fod ganddynt rwymedigaethau statudol i reoli ein moroedd neu'u bod yn berchen ar ddarnau sylweddol o dir ar yr arfordir neu ar wely'r môr."[3]

**8.** Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru mai diben cyffredinol rheoli MPAs yw:

> "… to achieve and sustain favourable condition of the features and sites; this in turn has an impact on the health and functioning of the whole marine environment."[4]

**9.** Mae'r cyfrifoldeb am adnabod, dynodi a rheoli MPAs Cymru yn gymhleth oherwydd yr amrywiaeth o ddynodiadau a ddefnyddir, oherwydd bod eu seiliau cyfreithiol domestig ac Ewropeaidd yn gymysg a hefyd oherwydd bod y cymhwysedd drostynt wedi'i daenu ar draws gweinyddiaeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ar gyfer gwahanol ardaloedd morol.

**10.** Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd sy'n gyfrifol am MPAs dyfroedd tiriogaethol Cymru yn unig (dyfroedd glannau Cymru o'r marc penllanw cymedrig hyd at derfyn 12 milltir fôr y moroedd tiriogaethol). Llywodraeth y DU ar hyn o bryd sy'n gyfrifol am ddyfroedd y môr yng Nghymru (dyfroedd rhwng terfyn 12 milltir fôr y moroedd tiriogaethol a llinell gymedrig y DU Iwerddon neu derfyn dyfroedd cyfagos Gogledd Iwerddon). Yn Neddf Cymru 2017, cyflwynir rhagor o bwerau datganoledig sy'n berthnasol i'r amgylchedd morol, gan gynnwys pwerau i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol yn rhanbarth y môr yng Nghymru.

**11.** Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff cadwraeth natur yng Nghymru ac felly mae'n gyfrifol am nodi a chynnig cyngor ynghylch dynodiadau cadwraeth natur forol yn nyfroedd glannau Cymru. Mae'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ar hyn o bryd yn gyfrifol am nodi a chynnig cyngor ynghylch cadwraeth ar gyfer MPAs yn nyfroedd morol y Deyrnas Unedig. Mae'r Cydbwyllgor yn cynghori Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig am Ardaloedd Cadwraeth Forol Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Forol Arbennig (AGA) a Pharthau Cadwraeth Morol (PCM) ar gyfer yr ardaloedd hyn.

---

[3] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru
[4] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru

**12.** Yn 2014, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Llywio MPAs sy'n cynnwys y prif awdurdodau rheoli. Pwrpas y grŵp yw bod yn lladmerydd dros reoli MPAs a chynnig trosolwg strategol ar gyfer hynny. Ei gylch gorchwyl yw:

> "Sicrhau bod yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru yn cael eu rheoli'n effeithiol a'u gwella drwy gynorthwyo i roi camau i reoli'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar waith i ddiogelu bioamrywiaeth forol, yr ecosystem ehangach, a'r manteision economaidd-gymdeithasol i Gymru."[5]

**13.** Mae'r Grŵp Llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o faes llywodraeth leol, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, cyrff dŵr a charthffosiaeth ac awdurdodau'r porthladdoedd a'r harbwrs. Mae un o Swyddogion yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) hefyd yn aelod o'r grŵp i gynnig cyngor a chefnogaeth dechnegol.[6] Rhoddwyd tasg i'r grŵp baratoi cynllun ar gyfer gwella trefniadau rheoli'r MPAs ond nid yw hwnnw wedi'i gyhoeddi eto.

**14.** Roedd y rhai a gyfrannodd at yr ymchwiliad yn galw'n gryf am fwy o arweiniad strategol gan Lywodraeth Cymru. Cafwyd galw am arweiniad cryfach ers tro er enghraifft gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn ei dystiolaeth i ymchwiliad blaenorol Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i bolisi morol yn 2012. Ar y pryd, yr oedd yn gofyn am fwy o arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar reoli MPAs. Casgliad adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor oedd bod angen :

> "… arweiniad cryfach wrth reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth er mwyn cael dull mwy ystyrlon a phenodol o reoli'r rhwydwaith."[7]

**15.** Wrth ymateb i'r ymchwiliad hwn, dywedodd yr Athro Warren nad yw syniadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r hyn y mae'n dymuno'i weld yn ddigon clir mewn gwirionedd ar hyn o bryd er mwyn gallu rhoi arweiniad i bobl ynghylch hynny.[8] Meddai Alec Taylor, Cyswllt Amgylchedd Cymru:

> "… there could be more joined-up thinking at the higher level to actually give marine protected areas the attention and the priority that they perhaps deserve."[9]

**16.** Ategodd Sue Burton ac Alison Palmer Hargrave, Swyddogion Safleoedd Morol Ewropeaidd, y farn y dylid meddwl mewn ffordd fwy cydlynol gan ychwanegu bod angen i Lywodraeth Cymru gynnig gwell arweiniad a chyfeiriad strategol er mwyn helpu i reoli MPAs yn lleol. Dywedodd Gill Bell, Cyswllt Amgylchedd Cymru:

> "… we now have the Wales marine plan being developed, which is great; we also have the natural resources policy; and [the Cabinet Secretary] also mentioned that we have a fisheries policy. My concern is that there isn't this overall strategic plan as to how all those are going to work together."[10]

---

[5] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru
[6] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru
[7] Ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i bolisi morol yng Nghymru, Ionawr 2013
[8] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 1 Chwefror 2017, para 87
[9] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Mawrth 2017, para 7
[10] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Mawrth 2017, para 9

## Staffio ac adnoddau

**17.** Roedd consenswş yn y dystiolaeth bod angen rhagor o adnoddau, o ran staffio a chyllid, er mwyn gallu rheoli MPAs mewn ffordd gynaliadwy. Dywedodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru fod y swyddogion hynny sy'n gyfrifol am reoli Ardaloedd Cadwraeth Arbennig wedi gweld diffyg buddsoddi. Mae'r cyllid yn aml yn dameidiog, ac mae hyn yn golygu goblygiadau ar gyfer faint o waith cadwraeth a monitro y gellir ei wneud yn y tymor hir. Pwysleisiwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gweld ei adnoddau a nifer ei staff yn crebachu a'i gyllideb yn gostwng 15% yn y ddwy flynedd ddiwethaf.[11]

**18.** Dywedodd Grŵp Defnyddwyr a Datblygu Gwely'r Môr:

> "We believe that more could be done to provide strategic direction, but that it is not just a matter of more resources, it is also about more effective use of existing resources and better use of information; but we would also say that there is insufficient of either at present to do the job properly."[12]

**19.** O ran yr effaith y mae hyn wedi ei chael, soniodd ClientEarth am effaith diffyg adnoddau ar arweiniad:

> "The management of Welsh seas has not received sufficient resource and strategic direction. Both the Welsh Government and Natural Resources Wales (NRW) have suffered cuts and are seriously under-funded in the area of marine management. Combined with voluntary redundancies and staff re-structures resulting in a loss of resources and expertise, this has led to a serious loss of strategic direction."[13]

**20.** Dywedodd ymarferwyr eu bod yn rhwystredig wrth weld pa mor anghyson yw'r adnoddau ar draws safleoedd MPA. Er enghraifft, dywedodd Sue Burton, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd:

> "… if you look at the resource particularly within Welsh Government at the marine and fisheries division, there are many more staff on the fisheries side than there are in the marine conservation area. There are quite a few marine expert staff within NRW, but, again, the capacity for them to be proactive in their work programme when they're having to be firefighting and dealing with casework, and other things, is still a problem."[14]

**21.** Credai Group Awdurdodau Perthnasol ACFA Sir Benfro fod yr adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru yn dangos tuedd gref o blaid pysgodfeydd.[15]

## Fframweithiau rheoli

**22.** Cyfrifoldeb ar y cyd yw rheoli ac mae rheoli'r gwahanol fathau o MPAs yn dod o dan ddylanwad uniongyrchol eu fframweithiau deddfwriaethol cysylltiedig.

[11] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaeth Natur Cymru
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig Defnyddwyr a Datblygu Gwely'r Môr
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig ClientEarth
[14] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Mawrth 2017, para 141
[15] Tystiolaeth ysgrifenedig Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACFA Forol Sir Benfro

**23.** Trafododd tystion yr angen i reoli MPAs yn gadarn a bod angen dulliau rheoli effeithiol yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn gwneud hynny. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru:

> "In summary, whilst the current management regime provides the tools for sustainable management of the marine environment, there remain delivery challenges in relation to resources and prioritisation, and also the application of new legislation in the marine environment."[16]

**24.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan grŵp Awdurdodau Perthnasol ACFA Sir Benfro am ddiffyg integreiddio cynlluniau a pholisïau a bod angen rhagor o integreiddio rhwng y gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, polisi a gweithredu sy'n gysylltiedig ag MPAs. Er enghraifft, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru: "The different types of legislation and duties can lead to confusion or lack of understanding of an organisation's responsibilities".[17] Clywodd y Pwyllgor fod ffrydiau gwaith o dan y Rhaglen Newid Morol, cadwraeth natur forol, polisi pysgodfeydd a pholisi adnoddau naturiol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ar wahân i'w gilydd.

**25.** Dywedodd Alec Taylor, Cyswllt Amgylchedd Cymru, ei fod yn ddigalon o weld bod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, sy'n cael ei lunio gan Lywodraeth Cymru, i bob golwg wedi'i seilio ar 'ardaloedd adnoddau strategol'. Nid oedd yn meddwl bod mynd ati fel hyn yn rhoi digon o sylw i effaith gweithgareddau ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig.[18] Credai Gill Bell, Cyswllt Amgylchedd Cymru, na fydd y cynllun yn rhoi'r sylw na'r flaenoriaeth i'r MPAs y maent efallai'n eu haeddu.[19]

**26.** Fodd bynnag, barn Cyfoeth Naturiol Cymru yw y bydd y Cynllun Morol sydd ar y gweill yn fecanwaith allweddol ar gyfer rheoli MPAs, ac y bydd yn darparu fframweithiau rheoli integredig.[20]

**27.** Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru dystiolaeth am sut y mae'n mynd i'r afael â'r bylchau hyn drwy ei Brosiect Gwella Cyflwr MPAs.[21] Roedd hwn yn rhestru'r prif heriau a wynebai MPAs Cymru a'r camau y mae angen eu cymryd. Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod 70 o blith y 200 cam gweithredu a restrwyd yn flaenoriaethau'n mynd rhagddynt.[22]

**28.** Un o'r arferion da a nodwyd o ran rheoli a gweithredu oedd model y Grŵp Awdurdodau Perthnasol. Serch hynny, roedd rhanddeiliaid yn poeni bod y drefn bresennol, sef, darparu adnoddau fesul tipyn yn bygwth gweithgarwch o'r fath. Eglurodd Alison Palmer Hargrave, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd fod angen digon o gyllid ac ymrwymiad arnynt i sicrhau rhaglen hirdymor effeithiol.[23]

**29.** O ran ehangu'r arfer da hwn, mae'r Grŵp Llywio MPAs wedi ymgynghori â'i aelodau ynglŷn â sut y gallai trefniadau rheoli MPAs Cymru ddynwared y dull hwn, sef y dull sydd wedi'i seilio ar ardaloedd. Roedd hyn yn cynnwys nifer o opsiynau, gan gynnwys trefn leol yn cynnwys saith ardal reoli neu drefn ranbarthol yn cynnwys dwy neu bedair ardal reoli.

**30.** Dywedodd Swyddogion y Safleoedd Morol Ewropeaidd, Sue Burton ac Alison Palmer Hargrave, wrth y Pwyllgor y byddai'n well gan randdeiliaid weld saith ardal reoli yng Nghymru, a phob un â'i

---

[16] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru
[17] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru
[18] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Mawrth 2017, para 6
[19] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Mawrth 2017, para 7
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru
[21] https://naturalresources.wales/about-us/our-projects/life-n2k-wales/life-n2k-reports/?lang=cy
[22] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 5 Ebrill 2017, para 180
[23] Tystiolaeth Ysgrifenedig Grŵp Awdurdodau Perthnasol Pen Llŷn a'r Sarnau.

swyddog safle. Amcangyfrifwyd mai cost hyn fyddai rhyw £50,000 y safle ac y byddai angen arian ychwanegol er mwyn cwblhau prosiectau neu sicrhau canlyniadau penodol.

**31.** Dywedodd Gill Bell, Cyswllt Amgylchedd Cymru, er gwaethaf yr awgrym gan y Grŵp Llywio MPAs y dylid sumud at ddull seiliedig ar ardaloedd lleol, sef saith ardal reoli â swyddog ar bob un, na allai Llywodraeth Cymru ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i alluogi datblygiad o'r fath. Dywedodd:

> "… that group has effectively had its hands tied because, although it made the recommendations that we had the seven special areas of conservation, and we had a consultation on it, they effectively have no resources in order to be able to implement that."[24]

## Galw am reoleiddio i reoli pwysau

**32.** Nododd Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Ceredigion fod gofyn cryfhau'r dulliau gwirfoddol presennol er mwyn rheoli pwysau o fewn MPAs, dulliau megis y Codau Ymddygiad Morol, drwy gyflwyno camau statudol. Roedd hyn yn cynnwys rheoleiddio llymach ar weithredwyr teithiau bywyd gwyllt. Barn Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACFA Sir Benfro oedd nad yw Cymru'n defnyddio i'r eithaf yr holl ddulliau rheoli sydd ar gael eisoes i reoli agweddau megis gweithgareddau hamdden.[25] Nododd Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACA Bae Ceredigion fod angen cryfhau'r Codau Ymddygiad Morol gwirfoddol drwy gyflwyno camau statudol a fyddai'n gefn i'r trefniadau gorfodi.[26]

## Gorfodi

**33.** Mynegodd hanner y rheini a gyflwynodd ymateb ysgrifenedig bryder mawr ynghylch y diffyg gwyliadwriaeth, monitro a gorfodi yn MPAs Cymru. Gan gyfeirio at orfodi, dywedodd Sue Burton, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd ar gyfer ACFA Sir Benfro:

> "… there's your hard enforcement and your soft enforcement. Hard enforcement comes down to Welsh Government and marine enforcement officers. It's great to see that £5.8 million has been directed to some new enforcement vessels. So, that money has come from somewhere. I'm saying that's a good thing, but it's still a lot of money spent on enforcement, and it still needs to be continuous."[27]

**34.** Awgrymodd Blaise Bullimore fod nifer y diwrnodau patrolio ar y môr gan long Patrolio Pysgodfeydd De Cymru wedi gostwng, o'r 100 diwrnod y flwyddyn fan leiaf o dan y Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr blaenorol i 32 diwrnod y flwyddyn yn 2013 a 2014, ac wedi gostwng eto i 17 yn unig yn 2015. Dywedodd ClientEarth ei fod yn credu nad oes gan Lywodraeth Cymru ddigon o arian i wneud digon o waith gwyliadwriaeth a gorfodi, yn enwedig mewn perthynas â llongau pysgota o dan 12 metr o hyd, a bod diffyg data am yr ymdrech bysgota.[28]

---

[24] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Mawrth 2017, para 48
[25] Tystiolaeth Ysgrifenedig Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACFA Sir Benfro
[26] Tystiolaeth Ysgrifenedig Cyngor Sir Ceredigion, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Dŵr Cymru o Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion
[27] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Mawrth 2017, para 180
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig ClientEarth

**35.** Gan ymateb i gwestiwn am y camau gorfodi a gymerwyd, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru, Andy Fraser:

> "In terms of overall figures for 2015, in terms of Welsh Government fisheries patrol vessels days at sea, the Welsh Government was only third to the Royal Navy, and their two river-class vessels that patrol UK waters, and the Southern IFCA in England. For 2015, that's 89 days at sea for 2015 overall."[29]

## Datganiadau Ardal

**36.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am gyhoeddi Datganiadau Ardal[30] o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.[31] Dywedodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor eu bod yn disgwyl gweld cyhoeddi'r Polisi Adnoddau Naturiol cyn iddo lunio'i ddull terfynol ar gyfer cyhoeddi Datganiadau Ardaloedd.

> "There are differences between land and marine ecosystems and related management regimes that need to be recognised and may lead to ASs being developed differently for the marine environment to support sustainable management of marine resources. For example, the scale at which marine ecosystems function, and the dynamic and interconnected nature of the environment is very different to that on land … we currently foresee the need for overlapping boundaries between a single marine AS that sits alongside, and integrates with, a number of terrestrial AS that also look out to sea providing catchment to coast management."[32]

O ran sut y dylai Datganiadau Ardal gynnwys moroedd Cymru, roedd wyth ymatebydd o blaid datblygu Datganiad Ardal forol cenedlaethol, a'r mwyafrif hefyd yn awgrymu ei bod yn rhaid i Ddatganiadau Ardal am dir sy'n ffinio ar y glannau roi sylw i faterion sy'n ymwneud â'r môr. Roedd dau ymatebydd - Ymddiriedolaethau Natur Cymru (WRW) a Gweithgor Morol Cyswllt Amgylchedd Cymru - yn awgrymu, yn ogystal â Datganiad Ardal forol cenedlaethol y dylid hefyd cael Datganiadau Ardal isranbarthol sy'n cynnwys ardaloedd lleol ac sy'n rhoi manylion amdanynt.[33] O ran rôl Datganiad Ardal forol cenedlaethol, dywedodd Gweithgor Morol Cyswllt Amgylchedd Cymru wrthymy byddai Datganiad Ardal forol Cenedlaethol yn rhoi sylfaen dystiolaeth i ddeall 'Twf Glas' yn well a lliniaru'r effeithiau drwy fynd i'r afael â phwysau cronnus.[34]

**37.** Yn groes i hyn, dywedodd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru: "It would appear sensible to align Area Statements with Welsh local authority boundaries". Maent yn rhoi tri rheswm dros y farn hon. Yn gyntaf, mae angen eu hintegreiddio â'r awdurdodau sy'n rhoi caniatâd cynllunio; yn ail, mae angen cynnal a chryfhau'r cysylltiad sy'n bodloni eisoes â swyddogion safleoedd yr ACA a strwythurau Grwpiau'r Awdurdodau Perthnasol; ac, yn drydydd, a chofio natur hynod ddeinamig yr amgylchedd

---

[29] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 43
[30] Cyflwynwyd datganiadau ardal o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac dyma sut y'u disgrifir: 'Bydd y datganiadau ardal yn sail bwysig o dystiolaeth ar gyfer cyrff sy'n gweithredu yn yr ardal dan sylw gan y byddant yn cynnwys gwybodaeth am yr adnoddau naturiol a'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. **http://gov.wales/docs/desh/publications/160321-frequenty-asked-questions-cy.pdf**
[31] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/pdfs/anaw_20160003_en.pdf
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru
[33] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedoalethau Natur Cymru
[34] Tystiolaeth Ysgrifenedig Gweithgor Morol Cyswllt Amgylchedd Cymru

morol, ni fyddai Datganiad Ardal forol cenedlaethol yn gweithio, oherwydd y byddai ar raddfa mor fawr.[35]

## Ymatebion i'r arolwg ynglŷn ag a oes digon yn cael ei wneud i reoli moroedd Cymru er lles pobl Cymru a chenedlaethau'r dyfodol?


Dywedodd y rhai a ymatebodd i'n harolwg nad oes digon yn cael ei wneud i warchod ein moroedd.

Cyfanswm nifer y sylwadau: 576

Oes: 21

Nac oes: 524

Ddim yn gwybod: 31




## Cysylltu â Rhanddeiliaid

**38.** Yn ystod yr ymchwiliad hwn, pwysleisiodd yr ymatebwyr wrth y Pwyllgor ba mor bwysig oedd ymgysylltu â rhanddeiliaid ym maes rheoli MPAs. Roedd rhai tystion, gan gynnwys Jim Evans, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, yn teimlo bod gwaith ymgysylltu Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi gwella'n sylweddol ers iddo gael profiad o'r broses ymgynghori ynghylch y Parthau Cadwraeth Morol dan warchodaeth ddwys.[36] Roedd sawl tyst yn teimlo, serch hynny, fod angen i Lywodraeth Cymru wneud rhagor i wella'i dulliau cyfathrebu a'i hymgysylltu â rhanddeiliaid. Teimlai Cyswllt Amgylchedd Cymru fod y drefn yn anghyson, yn achosi rhwystredigaeth ac yn aneffeithiol.[37]

**39.** Nododd ClientEarth mai ymgysylltu yw un o'r prif bethau sy'n effeithio ar reoli MPAs:

> "A failure to adequately engage with and achieve buy-in from local communities affected by management decisions and failure to implement early and adequate consultation about proposed management measures with a wide

[35] Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
[36] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Mawrth 2017, para 259
[37] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyswllt Amgylchedd Cymru

range of stakeholders, including industry representatives and NGOs, to enable their effective participation in the decision-making process."[38]

**40.** Soniodd Gill Bell ac Alec Taylor ill dau o Gyswllt Amgylchedd Cymru, am yr ewyllys da rhwng rhanddeiliaid yng Nghymru ym maes rheoli'r môr. Fodd bynnag, roedd Gill Bell yn argymell y dylid ymgynghori'n gynharach â grwpiau cadwraeth, a dywedodd:

> "So, from an MCS point of view, what would be really useful is if we could have conservation groups, maybe three of them - north, mid and south Wales - where we get the relevant people together, the relevant authorities - NRW, Welsh Government - and just sit in a room and talk, because that's the way that decisions are made. If people feel that they are included in the decisions, then you have less need for the enforcement and people are more likely to agree with any of the management options that you go up to."[39]

**41.** Clywodd y Pwyllgor am bryderon fod llu o gyfarfodydd yn cael eu cynnal â rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â Rhaglen Newid Morol Llywodraeth Cymru, a bod nifer o is-grwpiau hefyd a'r rheini'n gweithredu ar wahân yn aml. Barn un tyst, Blaise Bullimore, oedd bod llawer gormod o waith ymgysylltu'n digwydd sydd weithiau'n gwthio'r prif nod i'r cyrion ac yn troi'n nod ynddo'i hun, ond nad yw gweithgarwch o'r fath yn gwneud y tro yn lle rheoli.[40] Soniodd rhai tystion fel Gill Bell, Cyswllt Amgylchedd Cymru, am ddiffyg tryloywder ac atebolrwydd y grwpiau hyn, gan gynnwys y diffyg mynediad at gofnodion y Grŵp Llywio MPAs. Dywedodd:

> "I do feel that there's an issue with transparency with regard to a lot of the stakeholder involvement. The key issue that I can find is that the minutes, any of the presentations - all of that is missing from Welsh Government. There is no paper trail, there is no accountability. We need those on the website."[41]

## Cryfhau dealltwriaeth y cyhoedd o MPAs

**42.** Awgrymodd rhanddeiliaid nad yw'r cyhoedd yn deall rhyw lawer am bwrpas a manteision MPAs. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu'n well â'r cyhoedd a busnesau.

**43.** Dywedodd Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACFA Sir Benfro fod angen rhagor o ymwybyddiaeth, ymhlith pobl Cymru, o'r dynodiadau a'r hyn y mae angen ei wneud i'w gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dywedasant:

> "There is a lack of general awareness of what our MPAs contain … Improvements to awareness and understanding are needed amongst the general public/communities, users of multi-use MPAs, and marine managers … Through awareness comes understanding, and then respect leading to protection; this is a sequential process."[42]

[38] Tystiolaeth ysgrifenedig ClientEarth
[39] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Mawrth 2017, para 123

[40] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 5 Ebrill 2017, para 93
[41] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Mawrth 2017, para 109
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACFA Sir Benfro

**44.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru mai un o'r gwersi a ddysgwyd yn sgil dynodi MPAs yn y deng mlynedd diwethaf oedd bod angen ymgysylltu'n effeithiol ac yn brydlon:

> "The need for good public engagement, both locally and nationally, is key to MPA management, with strong clear transparent messages and open dialogue. Early, active engagement on the possible new SACs for harbour porpoise created an open dialogue with stakeholders, locally and nationally, and ensured people were well-informed once the consultation commenced and potential issues were readily resolved."[43]

**45.** Dywedodd y tystion nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyfathrebu â'r cyhoedd (nac â busnesau) ynglŷn â manteision MPAs i Gymru. Felly, ychydig o ymwybyddiaeth neu gefnogaeth sydd i'w gweld ymhlith y cyhoedd – teimlid fod cyflogi swyddogion safle fel rhan o'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol yn brwydro yn erbyn y diffyg hwn. Dywedwyd yn rheolaidd fod y modelau partneriaeth hyn yn enghreifftiau o arferion da ym maes cysylltu â rhanddeiliaid, a'u bod yn fforwm ar gyfer ymgysylltu, cyfnewid gwybodaeth a rheoli cysylltiadau. Esboniodd Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACFA Sir Benfro wrth gyfeirio atynt:

> "… they bring together a multi-sectoral approach to marine management with strong local stakeholder engagement and information to ultimately drive forward well-informed, accepted and targeted marine management."[44]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**46.** Wrth ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor ynglŷn ag yw Llywodraeth Cymru'n cynnig arweiniad clir a digon o adnoddau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "I think we are giving the leadership. I think it's a much more strategic approach that the group have brought forward, which—as I say, I do support and I respect their view. In relation to funding, well, you know, I've only got what I've got, and I have to make sure that I support every part of the portfolio, but I didn't think that the funding was a particular issue that had come out."[45]

**47.** Pan ofynnwyd am lefel yr adnoddau a neilltuir ar gyfer cadwraeth forol yn Llywodraeth Cymru, dywedodd wrth y Pwyllgor nad oedd modd cyfrifo union swm yr adnoddau am fod swyddogion yn gweithio ar ormod o wahanol agweddau ar bolisi morol.

**48.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod oedi wedi bod wrth gyhoeddi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, y bwriedir ymgynghori yn ei gylch yn ystod haf 2017. Esboniodd mai'r rheswm dros hyn oedd bod Llywodraeth Cymru'n disgwyl am ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig i Arolwg Hendry ar forlynnoedd llanw. Serch hynny, er gwaethaf yr oedi, byddai'r cynllun yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori erbyn "mis Medi neu fis Hydref fan hwyraf".[46]

---

[43] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACFA Forol Sir Benfro
[45] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 22
[46] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 55

**49.** O ran gorfodi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, y Deyrnas Unedig a Chymru sy'n ymwneud â physgodfeydd yng Nghymru ac ym Mharth Cymru[47] gan Lywodraeth Cymru, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dystiolaeth o'r buddsoddi diweddar mewn llongau pysgodfeydd.

**50.** Wrth drafod y cyllid ar gyfer Grwpiau'r Awdurdodau Perthnasol, dywedodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi symud oddi wrth fodel cyllido craidd a thuag at weithgarwch ar sail prosiectau.[48] Ac ystyried y newid hwn, dywedodd: y byddai'n rhaid edrych ar hyn a pharhau i'w fonitro. Dywedodd ei bod wedi ysgrifennu at yr Awdurdodau Perthnasol i gyd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

**51.** O ran y penderfyniad i beidio â symud at fodel yn cynnwys saith ardal reoli, a phob un ohonynt ag aelod amser llawn o staff, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "Yes. I support the recommendations that have come out of the steering group…and certainly, I think, they've looked at what the priorities are. They've worked with NRW to have a forward work programme, if you like, about what the priorities are from NRW's point of view. I also mentioned, or Graham mentioned, about the JNCC as well—working with them. So, yes, I absolutely support the work that the group does."[49]

**52.** Pan ofynnwyd a oedd Llywodraeth Cymru o blaid argymhelliad y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ynglŷn â saith ardal reoli, dywedodd y swyddog a oedd yn y cyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

> "The group felt that would have been an ideal approach, but were concerned that, because the responsibility for looking after unprotected areas is shared across a number of management groups, the groups would not be able to find the funding to achieve that outcome. And also they were a bit concerned that maybe the appetite wasn't there across all of the management groups to move in that direction."[50]

**53.** Wrth ymateb i'r cwestiwn ynghylch a oedd yn meddwl bod cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddigon iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas ag MPAs, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet ateb cadarnhaol gan ddweud bod hynny'n rhan o gyfrifoldeb statudol y corff.[51] Dywedodd y byddai'n codi'r mater hwn yn uniongyrchol â Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cyfarfodydd misol.

**54.** Trafododd Ysgrifennydd y Cabinet ddefnyddio grwpiau rhanddeiliaid morol a phwysigrwydd cydweithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Pan ofynnwyd a oedd defnyddio grwpiau o'r fath yn effeithiol ac yn dryloyw, dywedodd:

> "I suppose that then relies on those people who attend the stakeholder groups going back and disseminating the information to their network … I think that is

[47] Parth Cymru yw ardal moroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig y tu hwnt i ddyfroedd Cymru, cyn belled â'r llinell gymedrig â Gweriniaeth Iwerddon ac Ynys Manaw, y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdani o ran pysgota, rheoleiddio pysgodfeydd a iechyd pysgod.
[48] Dywedodd Martin Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, mai Llywodraeth Cymru oedd wedi gwneud y penderfyniad ynglŷn â chyllido craidd, gan roi cyfarwyddyd i Cyfoeth Naturiol Cymru beidio â rhoi arian craidd i gyrff yng Nghymru.
[49] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 14
[50] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 20
[51] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 102

> an area that could perhaps be improved, and a bit more openness and transparency."[52]

**55.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai cofnodion y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gael i'r cyhoedd. At hynny, cytunodd rannu cofnodion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen - Cregyn Bylchog.[53]

**56.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno bod model y Grŵp Awdurdodau Perthnasol yn llwyddiannus. Clywodd y Pwyllgor fod y model cyllido wedi newid o gyllid craidd i gyllid seiliedig ar brosiectau a bod hyn wedi golygu bod llai o arian ar gael wrth i'r Grwpiau addasu eu ceisiadau am gyllid. Cafodd hyn ei wneud er mwyn gwneud y broses yn fwy tryloyw o ran monitro a gwerthuso gweithgarwch y Grwpiau. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud y bydd y sefyllfa hon yn dal i gael ei monitro.[54]

**57.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd y gellid gwneud rhagor, a bod y cyfleoedd posibl i ddefnyddio Blwyddyn y Môr 2018 yn cael eu hystyried i gryfhau ymwybyddiaeth o fanteision MPAs Cymru. Dywedodd:

> "One of the opportunities that I do think we have is that next year is the Year of the Sea. So, I know officials are already working across the department with economy and infrastructure officials to see what more we can do there to show that it is a really positive thing, and to make people more aware of the benefits…"[55]

## Ein barn ni

### Cyfeiriad strategol

Cyfrifoldeb ar y cyd yw rheoli ac mae rheoli'r gwahanol fathau o MPAs yn dod o dan ddylanwad uniongyrchol eu fframweithiau deddfwriaethol cysylltiedig. Mae'r fframwaith hwn yn un cymhleth o safbwynt deddfwriaeth a pholisïau. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnig cyfeiriad strategol ac arweiniad gwleidyddol clir i sicrhau bod system reoli gydlynol ar waith a bod pobl yn ei deall yn iawn. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob awdurdod rheoli, megis yr Awdurdodau Perthnasol a'r Awdurdodau Cymwys, yn cyflawni eu cyfrifoldebau ym maes MPAs ac yn ymgysylltu ac yn ymroi'n ystyrlon i brosesau rheoli safleoedd.

Er mwyn cyflawni'r rôl arwain hon yn effeithiol, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn dyrannu digon o adnoddau, gan gynnwys adnoddau staffio i Is-adran y Môr a Physgodfeydd. Bydd timau o fewn yr Is-adran hon yn cydweithio i gefnogi trefniadau rheoli MPAs. Nid oedd tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet yn argyhoeddi'r Pwyllgor bod digon o adnoddau staffio o fewn Llywodraeth Cymru iddi wireddu ei chyfrifoldebau ym maes cadwraeth morol.

Mae tystiolaeth bod nifer o Grwpiau'r Awdurdodau Perthnasol yn cydweithio'n effeithiol, gan gynnwys y gwaith sy'n cael ei wneud gan Swyddogion y Safleoedd Morol Ewropeaidd. Credwn y byddai rheoli MPAs yng Nghymru ar sail ardaloedd, gyda swyddog dynodedig ar gyfer pob ardal, yn cryfhau'r

[52] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 141
[53] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 143
[54] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 114
[55] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 147

ddarpariaeth leol, y cydweithio ar draws safleoedd a'r ddarpariaeth genedlaethol. Serch hynny, rydym yn poeni nad oes digon arian ar gael yn lleol i sefydlu'r drefn hon. Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn yn ddi-oed.

Mae'r Pwyllgor yn bendant y bydd rhoi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar waith yn elfen hanfodol o fframwaith rheoleiddio'r môr ac mae'n pwyso ar Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â hyn yn ddi-oed. Serch hynny, credwn fod angen strategaeth benodol ar gyfer MPAs i weithio ochr yn ochr â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru, y Polisi Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal.

**Fframweithiau rheoli**

Rheolir yr amgylchedd morol drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau rheoli a threfniadau rheoleiddiol gan gynnwys is-ddeddfau cadwraeth natur forol, codau ymarfer gwirfoddol, trwyddedu, caniatáu a rheoli pysgodfeydd.

Gall gorfodaeth forol ddigwydd ar sawl ffurf, a'r rheini'n aml yn cynnwys cyfuniad o fecanweithiau statudol a gwirfoddol. Serch hynny, mae diffyg goruchwyliaeth a diffyg gorfodi'r rheoliadau a'r system drwyddedu gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn destun pryder.

Er bod y buddsoddi diweddar mewn llongau patrolio newydd i'r pysgodfeydd yn calonogi'r Pwyllgor, byddem yn dymuno gweld y dulliau gorfodi eraill sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n well, gan gynnwys gorfodaeth 'feddal' megis addysgu pobl yn sgil presenoldeb swyddogion safle. Ac ystyried y pryderon a glywyd nad yw pobl bob tro'n cadw at ymrwymiadau gwirfoddol, credwn y dylai awdurdodau rheoli, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ystyried gwneud y rhain yn statudol drwy reoleiddio.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwaith a wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes ar brosiect blaenoriaethau Cynllun Gwella LIFE Natura 2000. Serch hynny, credwn ei bod yn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ddyrannu digon o adnoddau i gyflawni'r camau sy'n codi yn sgil y prosiect hwnnw. Oni all wneud hynny, rhaid iddo godi'r mater gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar frys. At hynny, nodwn y bydd gofyn sicrhau adnoddau ychwanegol ar gyfer llawer o'r camau sy'n flaenoriaeth yn sgil y Prosiect presennol i Wella Cyflwr MPAs, drwy gyfrwng cyllid Ewrop. Rydym yn poeni y bydd diffyg adnoddau'n amharu ar allu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei weithgareddau sy'n gysylltiedig ag MPAs yn awr ac yn y tymor canol.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

Amrywiol oedd profiadau rhanddeiliaid y gwahanol ffora sy'n ymwneud â'r môr yng Nghymru ac mae lle i wella'r cyfranogi a'r cyfathrebu. Rydym yn poeni, fel y mae'r rhanddeiliaid, nad yw'r arferion ymgysylltu sy'n gysylltiedig â Rhaglen Newid Morol Llywodraeth Cymru wedi'u hintegreiddio gystal ac nad ydynt ychwaith mor syml ag y gallent fod. Mae gwaith ymgysylltu a phartneriaeth effeithiol yn hanfodol.

Mae llawer o randdeiliaid yn credu nad yw rhai o'r grwpiau sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru'n dryloyw. Rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i gyhoeddi cofnodion y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Rydym yn ei hannog i estyn yr ymrwymiad hwn i grwpiau eraill o dan y Rhaglen Newid Morol, yn enwedig y rheini sy'n cynghori Gweinidogion Cymru am gamau rheoli technegol, megis y Grŵp Gorchwyl a Gorffen - cregyn bylchog. Dylid rhoi gwybodaeth yn gyson i'r Pwyllgor am weithgareddau ac allbynnau'r grwpiau hyn.

Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Cymru fod yn falch o'i hamgylchedd morol ac arfordirol ac yn credu bod MPAs yn fodd o helpu i gadw'r moroedd yn iach ac y bydd hynny yn ei dro'n gefn i dwristiaeth y glannau a sectorau eraill megis pysgodfeydd. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth moroedd Cymru a gwerth MPAs.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr ymgysylltu'n lleol yn effeithiol pan fydd swyddog safle MPAs ar waith. Serch hynny, mae prinder adnoddau'n cyfyngu ar weithgareddau allgymorth o'r fath ac nid oes swyddogion ar gael i wasanaethu pob ardal yng Nghymru.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Er mwyn i Gymru wireddu manteision ei MPAs, rhaid rheoli'r safleoedd yn effeithiol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnig arweiniad yn hyn o beth drwy ddatblygu, yn ddi-oed, strategaeth MPAs, a sicrhau bod pob awdurdod rheoli, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn ymwneud yn frwd â rheoli MPAs ac yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau.

**Argymhelliad 2.** Ni ellir rheoli MPAs yn effeithiol heb y lefel briodol o adnoddau, gan gynnwys cyllid a staffio. Rhaid i Lywodraeth Cymru:

- sicrhau bod ganddi ddigon o staff i gyflawni ei chyfrifoldebau ym maes cadwraeth y môr;
- cyflwyno cynigion ar gyfer cyllido dull gweithredu sy'n seiliedig ar ardaloedd, a sicrhau bod gan bob ardal reoli ei swyddog dynodedig ei hun; a
- sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran rheoli MPAs a gwella Rhwydwaith Natura 2000 Cymru.


**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid a'r cyhoedd a gweithredu mewn ffordd fwy tryloyw ac effeithlon, gan gynnwys cyhoeddi gwybodaeth am weithgareddau'r grwpiau arbenigol y mae'n eu harwain. Dylai rhanddeiliaid gael ymwneud yn llawn â datblygu'r strategaeth MPAs. Rhaid i Lywodraeth Cymru gryfhau ymwybyddiaeth o MPAs ymhlith y cyhoedd.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth orfodi sy'n seiliedig ar risgiau ac sy'n mynd i'r afael â'r holl bwysau sydd ar MPAs, gan gynnwys ansawdd dŵr, sbwriel, pwysau yn sgil gweithgareddau hamdden; pysgodfeydd a chasglu adnoddau morol sydd heb eu rheoleiddio; a dylai symud yn gyflym i roi camau rheoli ar waith yn yr MPAs y gwyddys eu bod dan fygythiad.

## Ymatebion i'r arolwg am y bygythiadau mwyaf sy'n wynebu moroedd Cymru

Gwyddom fod heriau di-ri i gadw moroedd Cymru mewn cyflwr ffafriol er mwyn iddynt gynnal yr holl fywyd sydd ynddynt. Gofynnwyd i bobl ddweud wrthym ymhle mae'r peryglon a'r ymateb mwyaf poblogaidd oedd mai llygredd yw'r bygythiad mwyaf.

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 727


Llygredd (gan gynnwys gollyngiadau olew, carthffosiaeth a dŵr ffo amaethyddol)
75%
Ymelwa ar adnoddau byw (e.e. pysgota, cloddio am abwydau)
53%
Sbwriel
51%
Newid hinsawdd (e.e. lefel y môr yn codi a moroedd yn cynhesu)
38%
Rheolaeth aneffeithiol)
35%
Ymelwa ar adnoddau nad ydynt yn rai byw (e.e. echdynnu gro)
17%
Seilwaith a datblygiad arfordirol
17%
Arall (nodwch)
9%
Ynni nad yw'n adnewyddadwy
9%
Dyframaeth (e.e. ffermydd pysgod)
5%
Porthladdoedd a llongau
5%
Ynni adnewyddol morol
4%

# 03. Cyflwr Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru

Mae'r bennod hon yn sôn am y ddeddfwriaeth sy'n creu Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru. Mae hefyd yn trafod i ba raddau y maent yn llwyddo i ddarparu'r warchodaeth y bwriedir iddynt ei darparu a'r ymrwymiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae hefyd yn mynd i'r afael â'r materion sydd wedi codi ynglŷn â defnyddio data a thystiolaeth wrth reoli MPAs.


## Rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru

**58.** Mae amgylchedd morol Cymru'n ffurfio dros hanner arwynebedd Cymru ac mae'n gartref i rai o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau mwyaf amrywiol o safbwynt biolegol yn Ewrop. Adlewyrchir hyn yn nifer yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAs) sydd yng Nghymru. Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, mae cyfanswm o 132 o MPAs yng Nghymru, a'r rheini'n gorchuddio dros 5,500 o filltiroedd sgwâr, neu 50% o foroedd Cymru a 75% o'r arfordir.

**59.** Dynodir MPAs ar sail nifer o ymrwymiadau deddfwriaethol a sbardunau polisi fel y'u nodir yn Nhabl 1 isod:

| | **Dynodiad / math o MPA** | **Deddfwriaeth gysylltiedig** |
|---|---|---|
| **Deddfwriaeth ddomestig** | Parthau Cadwraeth Morol | Rhan 5 o **Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009** (cychwynnwyd Rhagfyr 2014). Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ddynodi yn rhanbarth y glannau yng Nghymru, Mae'r pwerau i ddynodi yn rhanbarth y môr yng Nghymru i fod i ddod i rym ym mis Ebrill 2017 o dan Ddeddf Cymru 2017. |
| | Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981** |
| **Lefel Ewrop** | Ardaloedd Cadwraeth Arbennig | **Y Gyfarwyddeb ar warchod cynefinoedd naturiol a phlanhigion ac anifeiliaid gwyllt** (Cyfarwyddeb Cynefinoedd) 1992. Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno safleoedd cais i'r Comisiwn Ewropeaidd i'w dynodi. |
| | Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig | **Y Gyfarwyddeb ar warchod adar gwyllt** (Cyfarwyddeb Adar) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu a ddylid categoreiddio neu newid Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. |
| **Confensiynau rhyngwladol** | Safleoedd Ramsar | Dynodir y rhain o dan y Confensiwn ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol, yn unol â chytundeb Ramsar, Iran, yn 1971. |
| | OSPAR (confensiynau Oslo a Pharis) | Y DU yw un o bymtheg parti sydd wedi llofnodi Contract y Confensiwn ar Warchod Amgylchedd Morol Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd ('**Confensiwn OSPAR**'). Mae Confensiwn OSPAR yn ymrwymo'r sawl sydd wedi Llofnodi'r Contract i sicrhau rhwydwaith o MPAs sy'n ecolegol gydlynol ac yn cael eu rheoli'n dda ar draws Ardal Forol OSPAR erbyn 2016 |

Tabl 1: Mathau o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru




**60.** Awgrymodd nifer o'r rhai a gyfrannodd at yr ymchwiliad mai eu profiad hwy yng Nghymru oedd nad yw dynodi ardal yn MPA wedi arwain at reolaeth effeithiol, ac nad oes proses reoli o gwbl ar waith mewn ambell un o'r ardaloedd hyn. Dywedwyd wrth y Pwyllgor am yr heriau wrth geisio rheoli MPAs Cymru'n effeithiol, gan gynnwys sicrhau cyflwr a statws cadwraeth safleoedd, rheoli safleoedd a gorfodaeth a'r ffaith nad oes Rhwydwaith Ecolegol Gydlynol.[56]

[56]Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU ddatganiad ar y cyd (PDF 106KB am gyfraniad disgwyliedig y DU at rwydwaith ecolegol gydlynol yr MPAs yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd o dan 'Gonfensiwn OSPAR'. Mae'n dweud: "A well designed network will contain MPAs of different sizes for different habitats and species, connected through movements of adult species and larvae, with a range of protection levels, to protect biodiversity".

**61.** Un sylw a gafwyd yn aml oedd nad oedd digon o adnoddau'n cael eu darparu i weithredu dynodiadau MPA ar lefel safleoedd, a dywedwyd bod perygl i Gymru greu 'Parciau Papur'[57] Esboniodd Blaise Bullimore:

> "…there's vanishingly little new management come in since designation, and if there's no management, there can be no improvement, and there can be no benefit."[58]

**62.** Esboniodd Gill Bell, Cyswllt Amgylchedd Cymru, fod rheoli aneffeithiol yn golygu nad oedd MPAs yn gwireddu'r manteision a ragwelid yn sgil adfer yr amgylchedd morol.

> "But the key issue … identified in the SoNaRR (State of National Resources Report) for marine is that the benefits of the ecosystem services are not currently being optimised. That's quite concerning to us, because that is then followed forward into the draft natural resource policy, in that they then say the benefits of marine national resources and we need to optimise their use. And yet, we haven't taken that step back first to make sure that we have recovery and enhancement before we start optimising."[59]

**63.** Un o'r prif bethau yr oedd rhanddeiliaid yn poeni amdano oedd nad oedd gan Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Statws Cadwriaethol Ffafriol (SCFf), fel sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddebau Natur Ewrop. O ran cyflwr y safleoedd hyn, dywedodd cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor:

> "Current condition of network of sites is variable, as is evidence on the relationship between some activities and site condition. NRW is currently engaged in the production of a full suite of indicative reports on site condition for all our European marine sites, and these will be published in summer 2017.
>
> In 2016 all EMS in Wales were assessed for their management effectiveness as part of a very high-level assessment of the management of MPA across the whole of the OSPAR network. All Welsh sites were assessed at a level of 'partial' in the overall assessment, which reflects the fact that some management mechanisms are in place but there is still progress to be made variably across the network. This result was in line with other sites across the UK."[60]

**64.** Fodd bynnag, dywedodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru:

> "Almost all of Welsh MPAs are in unfavourable condition for both the habitats and species they are designated for."[61]

---

[57] Sef pan fydd dynodi safle'n creu rhithargraff ei fod yn cael ei warchod a'i reoli ond nad yw hynny ond yn digwydd ar bapur.
[58] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 5 Ebrill 2017, para 14
[59] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Mawrth 2017, para 42
[60] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru
[61] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaeth Natur Cymru

**65.** Dywedodd Blaise Bullimore:

> "…if we look at the current condition, and the 2014 report on the condition of marine SACs, all five of the major habitat-based features are unfavourable, and three of those are still declining."

**66.** Trafodwyd y bylchau yn rhwydwaith MPA Cymru. Dangosodd Cyfoeth Naturiol Cymru ymhle mae'r bylchau mewn cynefinoedd a rhywogaethau penodol a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain drwy ychwanegu at yr MPAs. Yn ôl asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru, roedd y darlun cyffredinol yn gadarnhaol o ran yr ardaloedd sydd wedi'u cynnwys.

> "Overall the MPA network in Welsh waters has very good coverage with some gaps in habitats and species that are relatively small in terms of both number and area coverage targets compared to the existing network."[62]

**67.** O dan Ddeddf Cymru 2017, bydd gan Lywodraeth Cymru bwerau ychwanegol i ddynodi MPAs newydd yn ardal forol Cymru. Fodd bynnag, roedd rhai'n poeni y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar reoli'r safleoedd sy'n bodoli eisoes cyn ystyried dynodi ardaloedd newydd. Dywedodd Blaise Bullimore, oni chymerid camau ar y trywydd hwn, na fyddai dynodi MPAs yn golygu fawr mwy na 'chasglu stampiau'.[63]

**68.** Roedd nifer o'r tystion, megis Gweithgor Morol Cyswllt Amgylchedd Cymru ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru, yn credu bod bylchau yn y Rhwydwaith Ecolegol Gydlynol,[64] a'r rheini'n gysylltiedig â safleoedd sy'n cael eu gwarchod yn ddwys (ardaloedd cyfeirio), safleoedd ar gyfer rhywogaethau symudol a safleoedd yn y môr ar gyfer cynefinoedd lleidiog a thywodlyd.

**69.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor:

> "[we have] determined the pressures and threats affecting the condition of features in EMS and identified the actions required to address them … NRW has put in place the MPA Condition Improvement Project to prioritise and take forward actions that can deliver tangible benefits in terms of improvement in feature condition for these key issues."[65]

**70.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru, oherwydd yr anawsterau ar hyn o bryd o ran adnoddau, mai cyllid allanol yw'r allwedd i gyflawni'r rhaglen waith yn llwyddiannus, a bod nifer o geisiadau am gyllid wrthi'n cael eu paratoi.

## Data a Thystiolaeth

**71.** Yn ystod ei ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor am bwysigrwydd cael data a thystiolaeth perthnasol sydd wedi'u diweddaru ym maes rheoli MPAs a gwneud penderfyniadau. Clywodd hefyd

62 Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru
63 Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 5 Ebrill 2017, para 36
64 Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a gweinyddiathau eraill y DU **ddatganiad ar y cyd** (PDF 106KB) **am gyfraniad disgwyliedig y DU at rwydwaith ecolegol cydlynol yr MPAs yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd o dan** 'Gonfensiwn OSPAR'. Mae'n dweud: "A well designed network will contain MPAs of different sizes for different habitats and species, connected through movements of adult species and larvae, with a range of protection levels, to protect biodiversity".
65 Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru

fod angen dadansoddi'r data sydd ar gael mewn ffordd effeithiol a pharatoi adroddiadau cywir a rheolaidd am gyflwr Safleoedd Morol Ewropeaidd.

**72.** Yn Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru 2015, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at ddiffyg gwybodaeth o'r fath. Roedd hwnnw'n dweud:

> "A remaining issue for MPA management is the lack of detailed information on the extent of activities that occur within the network and how they impact the features of interest."[66]

**73.** Clywodd y Pwyllgor gan randdeiliaid ynghylch y diffyg tystiolaeth am faterion sy'n ymwneud â'r môr a bod angen buddsoddi rhagor ym maes monitro'r môr. Dywedodd Alec Taylor, Cyswllt Amgylchedd Cymru:

> "… it's concerning in terms of looking at the direction of travel for funding monitoring, even basic baseline monitoring - the fact that we struggle even to get resources for the simple stuff that will tell us, for example, how our seabirds have been reacting to climate change over 30 or 40 years. We have really good long-term data sets, which are always under pressure from funding cuts."[67]

**74.** Awgrymodd nifer o dystion y gellid dadansoddi'r data sydd ar gael eisoes yn well at ddibenion rheoli MPAs. Soniodd Blaise Bullimore wrth y Pwyllgor am Grŵp Goruchwyliaeth Amgylcheddol Aberdaugleddau. Partneriaeth o blith rheoleiddwyr y diwydiant, yr awdurdod lleol a'r parc cenedlaethol yw hon. Mae'r grŵp wedi bod yn gweithredu ers 25 mlynedd fel gweithgor i ddarparu hysbysrwydd a gwybodaeth wyddonol, dechnegol, ac anwleidyddol.[68] Trafododd y tystion hefyd fod angen defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael gan ddilyn yr egwyddor ragofalus.

**75.** Dywedodd llawer o'r rheini a ymatebodd i gais y Pwyllgor am dystiolaeth eu bod yn rhwystredig ynghylch y diffyg adrodd am gyflwr Safleoedd Morol Ewropeaidd. Clywodd y Pwyllgor nad yw gwybodaeth am gyflwr a statws rhywogaethau a chynefinoedd morol wedi bod ar gael ers 2012 a bod y wybodaeth sydd ar gael wedi'i seilio ar asesiadau 2006/7. Dywedodd Blaise Bullimore fod hyn yn golygu bod disgwyl i awdurdodau rheoli weithio'n ddall.[69] Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor fod rhaglen reolaidd o baratoi adroddiadau ar gyflwr y safleoedd wedi bod yn her fawr, ei bod yn anodd iawn darparu'r adnoddau ar gyfer y gwaith, a bod cyllidebau sy'n crebachu'n golygu ei bod yn gyfnod dyrys iawn.[70] Dywedodd ei fod yn bwriadu cyhoeddi cyfres lawn o adroddiadau eleni sy'n dangos cyflwr y safleoedd.[71]

**76.** Soniodd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru wrth y Pwyllgor am amryw o gynlluniau sydd ar y gweill i ddefnyddio pysgotwyr hyfforddedig yng Nghymru, ynghyd â'u cychod a'u cyfarpar (fel camerâu ac offer sonar), i gynnal arolygon a gwneud gwaith monitro ecolegol ar y môr. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn sgil y cyni ariannol, y byddai'n rhaid targedu'r gwaith monitro, gan gynnwys

---

[66] Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru, Hydref 2015, tudalen 11 http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/other-supporting-evidece/wales-marine-evidence-report/?lang=en
[67] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Mawrth 2017, para 98
[68] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 5 Ebrill 2017, para 69
[69] Tystiolaeth ysgrifenedig Blaise Bullimore
[70] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 5 Ebrill 2017, para 209
[71] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 5 Ebrill 2017, para 258

defnyddio gwyddoniaeth y werin, ac y byddai angen blaenoriaethu'r ymdrechion drwy ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r pwysau a'r risgiau.

**77.** Soniodd Gill Bell, Cyswllt Amgylchedd Cymru, fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru asesu effeithiau gweithgareddau pysgota sy'n peri risg uchel i MPAs. Fodd bynnag, yn wahanol i'r camau a gymerodd Defra ar gyfer Llywodraeth y DU, nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu atal gweithgareddau risg uchel yn ystod yr asesiad hwn. Awgrymodd fod y prosiect hwn yn cymryd cryn amser oherwydd y diffyg adnoddau, a bod risgiau hysbys yn dal i godi mewn MPAs yn y cyfamser. Wrth sôn am y prosiect hwn, sef 'Prosiect Asesu Pysgodfeydd Cymru', dywedodd ClientEarth wrth y Pwyllgor:

> "While the initiation of this project is most welcome, insufficient funding and resource has been allocated to this project, meaning that progress is moving at a glacial pace."[72]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**78.** Yn ei phapur i'r Pwyllgor, dyma sut y disgrifiodd Llywodraeth Cymru bwrpas y rhwydwaith MPA:

> "Yn hytrach nag atal neu rwystro unrhyw weithgaredd neu bob gweithgaredd mewn ardaloedd gwarchodedig, pwrpas y gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yw sicrhau bod gweithgareddau'n digwydd mewn ffordd sy'n caniatáu i'r ardaloedd gwarchodedig a'u nodweddion ennill neu gadw statws cyflwr ffafriol.
>
> Mae rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cael ei reoli'n effeithiol ac sydd mewn cyflwr ffafriol, neu'n agosáu at fod mewn cyflwr ffafriol, yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod gennym ecosystemau morol cysylltiedig a chydnerth sy'n cefnogi cymunedau'r arfordir, yn ogystal â llesiant pobl Cymru a'r rheini sy'n ymweld â'n glannau. Mae cyflwr nodweddion ein rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn amrywio ar hyn o bryd, ond rydym yn gwybod bod y safleoedd yn gallu cefnogi poblogaethau pwysig o adar a mamaliaid y môr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n paratoi adroddiadau dangosol am gyflwr ein holl Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, a byddant ar gael yn yr haf."[73]

**79.** Disgrifiodd Llywodraeth Cymru sut y bydd yn gweithredu'r ddeddfwriaeth ryngwladol, y ddeddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth yr UE yng Nghymru fel a ganlyn:

> "Drwy roi Cyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE ar waith yn llwyr a chwblhau rhwydwaith ecolegol gydlynus o ardaloedd morol gwarchodedig sy'n cael eu rheoli'n dda, byddwn yn darparu ecosystemau morol cydnerth. Bydd cyhoeddi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, ynghyd â'n rôl barhaus o ran y polisi trwyddedu morol, yn cefnogi twf morol cynaliadwy ac, fel rheolwr pysgodfeydd, byddwn yn parhau i ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy, cynhyrchiol a ffyniannus. Mae nodau bras y gwaith hwn yn hollol gyson â'n hymrwymiadau rhyngwladol, Ewropeaidd a domestig, gan gynnwys Deddf y

[72] Tystiolaeth ysgrifenedig ClientEarth
[73] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015."[74]

**80.** Pan ofynnwyd beth, yn ei barn hi, oedd ystyr llwyddiant o ran rheoli MPAs a sut y gellid mesur hynny, ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig oedd hyn:

> "… it is really important that we do raise favourable areas, that we maintain the condition of favourable areas, and that we look if there's anywhere negative that needs to be improved."[75]

**81.** O ran y rhwydwaith, cadarnhaodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r dyletswyddau adrodd sy'n gysylltiedig â rhwydwaith OSPAR. Dywedodd y swyddog a oedd gyda hi:

> "In terms of the network and its contribution, that's really important in terms of our OSPAR commitments, and we have to maintain the network and make sure it's functioning effectively."[76]

**82.** Dywedodd Llywodraeth Cymru:

> "Mae cyflwr nodweddion ein rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn amrywio ar hyn o bryd,… Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n paratoi adroddiadau dangosol am gyflwr ein holl Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, a byddant ar gael yn yr haf."[77]

**83.** Roedd ei thystiolaeth i'r Pwyllgor hefyd yn cyfeirio at Brosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru. Mae Cam 1 hwnnw wedi'i gwblhau. Mae'n dweud bod ail gam ar y gweill er mwyn asesu gweithgareddau risg uchel. Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn trafod yr asesiad ac yn penderfynu a oes angen mabwysiadu a chyflwyno atebion rheoli priodol.[78]

**84.** Pan ofynnwyd am y diffygion a nodwyd yn Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "We do a great deal of monitoring, et cetera. If I needed specific science, evidence, we would commission it. So, I'm not quite sure about the criticism of deficiencies. So, for instance, the Bangor University evidence that was done into scallop dredging—. So, when I came to make a decision - I mean, I hadn't started that evidence, it was started before I came into portfolio, but that's the type of thing that we would do to fill gaps, if we felt there was a gap or a deficiency."[79]

[74] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru
[75] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 11
[76] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 9
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru
[78] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru
[79] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 87

## Ein Barn Ni

**Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru**

Mewn llawer ei achos, nid yw dynodi ardal yn MPA yn nyfroedd Cymru wedi golygu bod yr ardal honno'n cael ei gwarchod nac ychwaith yn cael ei rheoli. Rhaid i reoli MPAs yn effeithiol olygu mwy na dim ond ei dynodi. Rhaid i hyn gynnwys rheoli safle'n barhaus ac mewn ffordd weithredol, gan gynnwys monitro a gorfodi.

Rydym yn cydnabod bod sawl awdurdod yn gwneud y gwaith rheoli, a hynny'n lleol ac yn genedlaethol, a bod hyn yn golygu bod angen adnoddau ac ymrwymiad. Heb drefn glir, gydgysylltiedig a chyson i reoli MPAs Cymru, mae gwir berygl y bydd y rheolaeth yn aneffeithiol. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at ddirywiad pellach yng nghyflwr MPAs a nodweddion y safleoedd.

Barn y Pwyllgor yw ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, cyn dynodi safleoedd newydd, sicrhau bod y gyfres bresennol o MPAs yng Nghymru'n cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i gyflawni rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol gyda golwg ar Rwydwaith Ecolegol Gydlynol MPAs yn y DU. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa fath o rwydwaith fyddai hon yng Nghymru. Dylai'r strategaeth arfaethedig ar gyfer MPAs (Pennod 2) gynnig diffiniad clir o Rwydwaith Ecolegol Gydlynol uchelgeisiol.

Rydym o blaid gweld Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â bylchau yn y rhwydwaith, gan gynnwys safleoedd yn rhanbarth môr Cymru yn y dyfodol.

**Data a thystiolaeth**

Er mwyn rheoli MPAs yn effeithiol, mae angen data a thystiolaeth gadarn. Mae gwyddor môr ac, yn yr un modd, y trefniadau i fonitro, asesu a goruchwylio safleoedd - yn heriol ac yn ddrud, ond eto'i gyd yn hanfodol. Nodwn ganfyddiadau'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ac Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru 2015 gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â data a thystiolaeth. Roedd yr olaf o'r rhain yn dangos bod diffyg gwybodaeth fanwl am weithgareddau sy'n digwydd yn MPAs Cymru ac yn argymell bod angen gwell gwybodaeth a fyddai'n gefn i wneud penderfyniadau mwy cadarn ac yn help i sicrhau gwell rheolaeth.

Roeddem yn poeni o glywed gan randdeiliaid, gan gynnwys swyddogion safleoedd MPAs, am y diffyg adrodd am gyflwr y Safleoedd Morol Ewropeaidd. Nid oes adroddiadau wedi bod ar gael am gyflwr rhai safleoedd ers 2012, ac roedd y rheini wedi'u seilio ar asesiadau yn 2006/07. Rydym felly'n croesawu'r ymrwymiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru y bydd cyfres lawn o adroddiadau am gyflwr safleoedd ar gyfer pob ACA ac AGA yng Nghymru ar gael erbyn mis Awst 2017. Yna, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymateb yn ddi-oed i ganfyddiadau'r asesiadau hyn os gwelir nad yw statws cadwraeth ACA ac AGA yng Nghymru'n ffafriol.

Clywodd y Pwyllgor am ddulliau eraill o ddarparu tystiolaeth a data am y môr, megis gwaith y Sefydliad Rheoli Morol yn Lloegr. Clywsom hefyd am gynlluniau lleol yng Nghymru megis cynllun Grŵp Gwyliadwriaeth Amgylcheddol Aberdaugleddau a Chymdeithas Pysgotwyr Cymru. Pan ymwelodd dirprwyaeth y Pwyllgor ag Iwerddon, cyfarfu'r aelodau â'r Sefydliad Morol yno sy'n gwneud gwaith ymchwil a datblygu cydlynol i gefnogi gwaith y llywodraeth.

Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol bod gwaith ymchwil a data cyfredol a chadarn ar gael yn sail ar gyfer rheoli MPAs ac ar gyfer gwneud penderfyniadau yn eu cylch. Rydym yn teimlo bod cyfle ar gyfer rhagor o gydweithio ar draws y llywodraeth, diwydiant a rhanddeiliaid morol yng Nghymru i ddefnyddio'r data sy'n bodoli eisoes yn well ac i ystyried ymdrechion ymchwil yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â bylchau hynny yn y wybodaeth sy'n flaenoriaeth.

## Argymhellion

**Argymhelliad 5.** Mae sicrhau bod data, tystiolaeth ac ymchwil ar gael yn elfen ganolog o ddatblygu a rheoli polisi MPAs. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu partneriaeth gwyddor môr yng Nghymru i ddwyn diwydiant, academia a rhanddeiliaid ynghyd. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod ganddi ddata ac ymchwil effeithiol ar waith i reoli MPAs, gan gynnwys gwaith monitro a gwyliadwriaeth.

**Argymhelliad 6.** Wrth ddynodi MPAs yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer y gwaith rheoli, monitro, goruchwylio a gorfodi y bydd gofyn ei wneud ar safle(oedd) a sut y darperir adnoddau o'r fath.


**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiffinio'r hyn y mae Rhwydwaith Ecolegol Gydlynol o MPAs yn nyfroedd Cymru yn ei olygu a dylai gydweithio â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â bylchau yn y rhwydwaith.

## Ymatebion i'r arolwg ar ymweld â moroedd Cymru[80]

Rydym yn gwybod bod pobl yng Nghymru'n rhoi gwerth ar adnoddau a bioamrywiaeth moroedd Cymru. Dangosodd ein harolwg mai'r hyn sydd fwyaf pwysig i bobl yw'r hyn sy'n byw yn y môr.

Pam mae'r môr yn bwysig i chi? Dewiswch y tri yr ydych yn eu hystyried bwysicaf yn y rhestr isod.

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 757




*% o'r ymatebion*

[80] Arolwg Tîm Allgymorth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rhagfyr 2016

# 04. Goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd

Yn y bennod hon, trafodir y risgiau a'r cyfleoedd i MPAs Cymru yn sgil y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE).

**85.** Mae'r bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd wedi arwain at ansicrwydd ynghylch statws Safleoedd Morol Ewropeaidd yn y dyfodol. Ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, bydd modd i'r DU a Llywodraethau datganoledig bennu eu cyfarwyddiadau polisi eu hunain mewn llawer o'r meysydd a oedd gynt yn dod o dan fantell yr Undeb Ewropeaidd.

### Deddfwriaeth

**86.** Er mwyn i MPAs Cymru sydd wedi'u dynodi o dan Gyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar yr UE gadw eu statws a'u sail gyfreithiol bresennol, bydd angen i'r Cyfarwyddebau hyn gael eu hymgorffori'n llawn yng nghyfraith ddomestig y DU wrth i'r UE ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Neu, gallai'r safleoedd hyn, yn y dyfodol, gael eu dynodi'n Barthau Cadwraeth Morol gan Weinidogion Cymru. Ac ystyried yr amserlen ar gyfer gadael yr UE, byddai dibynnu ar ddeddfwriaeth Cymru i sicrhau'r lefel hon o warchodaeth yn golygu y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gychwyn y broses hon.

**87.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth y dylid cadw pob MPA sydd wedi'i dynodi eisoes yng Nghymru a'r darpariaethau cysylltiedig, ac na ddylid gwanhau'r warchodaeth a roddir i'r safleoedd hyn ar ôl inni adael yr UE. Er enghraifft, dywedodd ClientEarth:

> "… we should not do away with these sites and the framework that helps to protect important parts of our marine ecosystem. Undoubtedly the European Marine Sites are valuable MPAs which protect precious marine habitats and species, many of which are recognised internationally as particularly vulnerable. European Marine Sites secure some of the most important areas for biodiversity … The management rules relating to European Marine Sites are also robust, which helps to ensure a high standard of protection. These levels of protection should be maintained post-Brexit to secure the continued recovery of historically degraded habitats in many EMSs."[81]

**88.** Clywyd barn o blaid gweld Cymru a'r DU yn parhau i gadw ymrwymiadau'r MPAs, fel y rheini sy'n gysylltiedig â chonfensiynau rhyngwladol megis OSPAR. Er enghraifft, dywedodd Alec Taylor, Cyswllt Amgylchedd Cymru:

> "… the power of the European designation process is not just the designation aspects; it's the monitoring requirements, it's the compliance requirements and it's ultimately the legal requirements that, actually, we can get good management of these sites."[82]

[81] Tystiolaeth ysgrifenedig ClientEarth
[82] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Mawrth 2017, para 32

**89.** Pwysleisiodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod cyfle i ddefnyddio rhagor ar ddeddfwriaeth benodol Cymru:

> "In exiting the EU, consistency and certainty will be important to ensure continued progress towards effective management of the network of MPAs as well as securing the network of sites that are predominantly created via EU Directives. Allied to this, exiting the EU should not result in any lowering of environmental standards/quality.
>
> In Wales we will benefit from strong domestic legislation that supports sustainable management of MPAs, including the Marine and Coastal Access Act, Environment Act and WBFG Act … [they] collectively provide a key opportunity to enhance the sustainable management of MPAs and the wider marine environment. Legislative change post EU should maximise the opportunities the above legislation offers."[83]

### Llwybr at gyfiawnder ac atebolrwydd amgylcheddol

**90.** Roedd nifer o'r ymatebion ysgrifenedig, gan gynnwys rhai'r grwpiau amgylcheddol a Grwpiau'r Awdurdodau Perthnasol yn poeni am gau'r drws at gyfiawnder ac atebolrwydd amgylcheddol. Roedd nifer yn holi beth fyddai'r gweithdrefnau gorfodi ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Dywedodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru:

> "There must be a replacement, affordable way of access to justice to enforce protection."

**91.** Dywedodd Mr Bullimore:

> "Withdrawal from the EU will leave the Welsh (and British) public with no recourse to EU infraction processes or the European Court."

**92.** Dywedodd sawl tyst, megis Cyswllt Amgylchedd Cymru, fod ofni y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn dwyn achos am dorri rheolau yn ysgogiad sylweddol i'r sawl sy'n rheoli MPAs Cymru. Ategwyd hyn gan Mike Lewis, Cyfoeth Naturiol Cymru a ddywedodd:

> "The main implication there is that you've lost the big enforcement from Europe, but that's a bigger question for Government at a UK level as to how that's dealt with across all European directives, I imagine. But the actual day-to-day enforcement activities we would expect to remain the same."[84]

**93.** Roedd y rheini a ymatebodd i'n hymchwiliad yn dweud eu bod yn poeni am yr ansicrwydd a achosir gan y posibilrwydd o golli mecanweithiau atebolrwydd, er enghraifft, drwy fethu â mynd at Lys Cyfiawnder Ewrop.

---

[83] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru
[84] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 5 Ebrill 2017, para 219

### Cyfle i gysoni

**94.** Pwysleisiodd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru y gellid ystyried y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn gyfle da i Gymru edrych ar ei threfniadau presennol ar gyfer MPAs, er mwyn gweld a ellid cysoni agweddau ar ddynodi a rheoli.

**95.** Pwysleisiodd Cyfoeth Naturiol Cymru nad yw Safleoedd Morol Ewropeaidd, yn wahanol i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sydd ar y tir, yn seiliedig ar ddeddfwriaeth ddomestig (hynny yw, y rhai a ddynodir yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig). Dywedodd na fydd yn rhaid i Gymru, a hithau'n rhan o'r DU, gynhyrchu'r adroddiadau bellach sy'n ofynnol o dan Erthygl 17 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Byddai hyn cynnig cyfle i ddefnyddio ei hadnoddau i lunio gwybodaeth sy'n fwy perthnasol i Gymru o ran cyflwr, statws ac opsiynau rheoli.[85]

### Cyllid Ewropeaidd

**96.** Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, y New Economics Foundation a Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACFA Sir Benfro yn poeni am y bylchau sylweddol a allai godi o ran adnoddau ar ôl colli ffrydiau cyllid yr UE fel Interreg, Amcan Un, EU LIFE (e.e. y Rhaglen Natura 2000) a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**97.** O ran y trefniadau pontio wrth adael yr UE neu gynlluniau i gynnal y warchodaeth i safleoedd a ddynodwyd o dan ddeddfwriaeth yr UE, nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod y cyfarfodydd sydd ar y gweill gan grŵp rhanddeiliaid y Gweinidog, y cyfarfodydd y bydd hi'n mynd iddynt gyda gweinidogion cyfatebol tair gweinyddiaeth arall y DU, wedi cael eu gohirio, a'r cyfarfod diwethaf wedi'i gynnal ym mis Ebrill. Felly, nid oedd wedi cael cyfle i drafod y materion hyn gyda'r Ysgrifennydd Gwladol sydd newydd ei benodi dros yr Amgylchedd.

**98.** Wrth ymateb i gwestiwn am sut y gall Cymru sicrhau y caiff y warchodaeth a roddir i safleoedd o dan ddeddfwriaeth yr UE ei chynnal, nid oedd Llywodraeth Cymru yn rhagweld dim newidiadau yn y dynodiad ond roedd yn pwysleisio ei bod yn aros am ragor o fanylion gan Lywodraeth y DU. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "… it depends on the great repeal Bill, really, because we just don't know what's going to be happening in relation to that now."[86]

**99.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflawni neu gynnal statws amgylcheddol da erbyn 2020, sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE. Dywedodd:

> "Yes, we have agreed in principle to continue our work. And you will have heard me say in other parts of the portfolio that we don't expect to see any drop in environmental standards, and the same goes for this part of the portfolio as well."[87]

[85] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 5 Ebrill 2017, para 221
[86] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 178
[87] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 154

**100.** O ran y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i asesu'r goblygiadau tebygol ac effaith gadael yr UE ar MPAs Cymru, sylw Ysgrifennydd y Cabinet oedd:

> "… work is already under way and we're harmonising designation and management as part of the designation process. It's really important that we have those conversations…"[88]

**101.** Pan ofynnwyd a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ceisio cyflawni neu gynnal y targed statws amgylcheddol da erbyn 2020, fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan Gyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE, dywedodd Ysgrifennydd Cabinet ei bod wedi cytuno mewn egwyddor i barhau â'r gwaith.[89]

**102.** Dywedodd y swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet mai cyllido fydd yr her fwyaf a fydd yn codi wrth i'r DU adael yr UE, "oherwydd bod llawer o gyllid yn cael ei ddarparu i ddynodiadau Ewropeaidd, gan gynnwys pysgodfeydd, er mwyn cefnog llawer o'r gweithgaredd hwnnw".[90]

## Ein Barn Ni

**Y Goblygiadau wrth adael yr Undeb Ewropeaidd**

Mae'r rhan fwyaf o MPAs Cymru wedi cael eu dynodi'n Safleoedd Morol Ewropeaidd o dan Ddeddfwriaeth Ewrop yn sgil Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar yr UE. Mae'r Pwyllgor yn bendant na ddylai'r warchodaeth hon i MPAs Cymru wanhau wrth inni adael yr UE. Ar ben hynny, dylid cynnal yr ymrwymiadau adrodd parhaus a thargedau megis y rhai o dan Gyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE.

Ac ystyried cymhlethdod presennol dynodi MPAs, mae'r Pwyllgor yn gweld potensial i symleiddio'r drefn ar ôl gadael yr UE heb wanhau'r warchodaeth. Byddai hyn yn cynnig mwy o eglurder am y mathau o MPAs a'r trefniadau rheoli sy'n gysylltiedig â hwy. Cyflwynodd Sue Gubbay a'r Athro Lynda Warren gynigion i'r Pwyllgor ar gyfer system ddwy haen o MPAs. Rydym yn teimlo'i bod yn werth ystyried fframwaith symlach o'r fath.

Roeddem yn siomedig o glywed bod ofn y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn dwyn achos am dorri rheolau yn ysgogiad sylweddol i'r sawl sy'n rheoli MPAs Cymru. Yn y pen draw, Llywodraeth Cymru ddylai berchnogi ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoli effeithiol. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol sicrhau llwybr at gyfiawnder amgylcheddol, herio ac adolygu ac fel y rhanddeiliaid, mae'n poeni am y posibilrwydd o gau'r drws ar Lys Cyfiawnder Ewrop yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn dymuno gweld ymlyniad parhaus at y Confensiwn ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfle i'r Cyhoedd gyfrannu at Wneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder ym maes Materion Amgylcheddol, a elwir yn Gonfensiwn Aarhus.[91]

---

[88] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 156
[89] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 154
[90] Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, para 209
[91] Yn 2005, daeth y DU yn un o lofnodwyr y Confensiwn ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfle i'r Cyhoedd Gyfrannu wrth Wneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder ym maes Materion Amgylcheddol, a elwir yn Gonfensiwn Aarhus.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cyhoeddiad diweddar ynglŷn â bwriad Llywodraeth y DU i adael Confensiwn Pysgodfeydd Llundain 1964 sy'n caniatáu i fflydoedd tramor ddod i ddyfroedd y DU. Mater y bydd y Pwyllgor yn dychwelyd ato maes o law yw hwn.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod buddiannau rheoli MPAs a physgodfeydd Cymru yn cael eu pwysleisio a'u hamddiffyn yn ystod y trafodaethau â Llywodraeth y DU am unrhyw gyllid neu fframweithiau rheoleiddio ar ôl i'r DU adael yr UE yn y dyfodol. O ystyried natur yr amgylchedd morol, mae'n rhaid rhoi trefniadau trawsffiniol effeithiol ar waith i sicrhau gwarchodaeth amgylcheddol gydlynol i'n moroedd mewn ardaloedd megis Aber Afon Dyfrdwy ac Aber Afon Hafren.

## Argymhellion

**Argymhelliad 8.** Un o gonglfeini rheoli MPAs yw sicrhau atebolrwydd a llwybr at gyfiawnder. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau yn y dyfodol yn unol â Chonfensiwn Aarhus ac nad ydynt yn rhy ddrud i ymgeiswyr.

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth Cymru asesu effaith debygol gadael yr Undeb Ewropeaidd ar MPAs Cymru, gan gynnwys a oes modd cysoni'r drefn ddynodi a rheoli, gan ymrwymo i sicrhau na chollir dim gwarchodaeth o dan drefniadau'r dyfodol. Rhaid iddi hefyd geisio cytundeb â Llywodraeth y DU ynglŷn â sut y caiff trefniadau i warchod yr amgylchedd morol eu rheoli'n gydlynol mewn ardaloedd morol sy'n croesi ffiniau.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adroddiadau am gyflwr a statws safleoedd MPAs Cymru sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth Ewrop yn cael eu paratoi'n rheolaidd ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, gan gyhoeddi a darparu adroddiadau i awdurdodau rheoli'n brydlon.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau bod adnoddau pysgodfeydd Cymru a buddiannau fflyd Cymru yn cael eu gwarchod yn llawn yn y trafodaethau i adael yr Undeb Ewropeaidd. Dylai trefniadau rheoli pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a strategaeth MPAs Cymru.

**Argymhelliad 12.** Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg cyllid a all fod ar gael ar gyfer gwaith MPAs gan fod y cyllid hwnnw ar hyn o bryd yn dod o gronfeydd yr UE, megis Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a LIFE-Nature.

# Atodiad A - Tystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: **Ymatebion i'r ymgynghoriad**

**Sefydliad / Enw**

Unigolyn - Bill (William) Glyn Miller-Jones

New Economics Foundation (NEF)

Unigolyn - Karl Fry

Lynda Warren - Prifysgol Aberystwyth

Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth Glannau Gogledd Orllewin Lloegr

Gweithgor Morol Cyswllt Amgylchedd Cymru

Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro

Marinet Limited

Cyngor Sir Ceredigion, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Dŵr Cymru o Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion

Grŵp Datblygu a Defnyddwyr Gwely'r Môr (SUDG)

Unigolyn

Brian Saunders - Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Porthcawl

Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Pen Llŷn a'r Sarnau

Cymdeithas Ceblau Tanfor Ewropeaidd

ClientEarth

Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol a Chymdeithas Hwylio Frenhinol Cymru

Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Unigolyn - Blaise Bullimore

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyflawniadau Allweddol Grwpiau'r Awdurdodau Perthnasol yng Nghymru / Swyddog Safleoedd Morol Ewropeaidd

Llywodraeth Cymru

# Atodiad B – Tystiolaeth lafar ac ymweliadau'r Pwyllgor

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yma: Trawsgrifiadau

1 Chwefror 2017

| Tyst | Sefydliad |
|---|---|
| Tim Glover | Blue Marine Foundation |
| Dr Sue Gubbay | Ymgynghorydd ar yr Amgylchedd Morol |
| Yr Athro Lynda Warren | Prifysgol Aberystwyth |
| Steve Fletcher | Pennaeth y Rhaglen Forol, Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig |

30 Mawrth 2017

| Tyst | Sefydliad |
|---|---|
| Alec Taylor | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Gill Bell | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Sue Burton | Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro |
| Alison Palmer Hargrave | Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau |
| Jim Evans | Cymdeithas Pysgotwyr Cymru |

5 Ebrill 2017

| Tyst | Sefydliad |
|---|---|
| Blaise Bullimore | Gwyddonydd morol |
| Mike Evans | Pennaeth Tystiolaeth, Gwybodaeth a Chyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Dr Mary Lewis | Arweinydd y Tîm Cynghori ar Gynllunio Strategol Morol |

14 Mehefin 2017

| Tyst | Sefydliad |
|---|---|
| Lesley Griffiths AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig |
| Graham Rees | Pennaeth Is-adran y Môr a Physgodfeydd, Llywodraeth Cymru |
| Andy Fraser | Pennaeth Pysgodfeydd, Is-adran y Môr a Physgodfeydd, Llywodraeth Cymru |

26 Ionawr - Pwyllgor yn cwrdd â Dr Terry McMahon yn y Sefydliad Morol, Iwerddon.